£1

papur FAMA

RHIF 431 Awst a Medi 2023 papurfama@hotmail.co.uk

# Atodiad Ysgolion - Ysgol Glanrafon ac Ysgol Tŷ Ffynnon














# YSGOL GLANRAFON, YR WYDDGRUG

**Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd**
Roedd 16 eitem yn cynrychioli'r ysgol ac y Sir yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri eleni. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn. Fe dderbyniodd y Gân Actol a'r Perfformiad Theatrig ill dau wobrau cyntaf. Yna, fe ddaeth Awen ac Olive yn fuddugol yn y Ddeuawd Cerdd Dant, Awen yn 2il efo'r Alaw Werin a Ela yn 3ydd gyda'r Llefaru BL 3 a 4.






Roeddem yn hynod o falch o Sally hefyd am iddi ennill y wobr am y perfformiwr gorau yn y Gan Actol. Hefyd derbyniwyd Elis, Soffi a Gwenno wobrau o fewn yr Adran Gelf a Chrefft. Llongyfarchiadau i bawb a diolch i bawb a fu wrthi'n hyfforddi, a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.



**Hwyl Fawr**
Cawsom y cyfle i ffarwelio â thri aelod o staff ddiwedd tymor. Roedd Mrs Jean Owen yn ymddeol ar ôl bod yn ysgol dros 14 o flynyddoedd: diolchwn iddi am ei hymroddiad a'i chefnogaeth. Dymunwn yn dda i Mr Emyr Gwynedd wrth iddo symud ymlaen at swydd athro yn Ysgol Gwyddelwern, a'r un fath i Miss Lowri Barker sy'n mynd yn ôl i'r coleg i hyfforddi at fod yn athrawes.



Hefyd, roeddem yn ffarwelio gyda chriw byrlymus Blwyddyn 6. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt wrth iddynt fynd ymlaen at Addysg Uwchradd. Derbyniwyd rhodd arbennig gan ddisgyblion Blwyddyn 6 i'r ysgol, sef mainc hyfryd ar gyfer y buarth, ynghyd a bocs o gemau bwrdd a llun arbennig ohonynt. Diolchwn iddynt am eu haelioni.



## Chwaraeon

Cawsom ddiwrnodau Mabolgampau llawn hwyl, er gwaetha'r ffaith i ni orfod gohirio sawl gwaith oherwydd y tywydd. Mae timau criced ac Athletau yr ysgol hefyd wedi bod yn cymryd rhan mewn twrnameintiau yn ddiweddar ac yn llwyddiannus iawn.



Hefyd, fe gafodd disgyblion yr Adran Iau gyfle i gymryd rhan yn Triathlon TATA Steel.




## Ras Liw

Codwyd swm anhygoel o £4413 yn ddiweddar wrth i'r holl ysgol gymryd rhan mewn Ras Liw a drefnwyd gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Rydym yn gobeithio defnyddio yr arian i ddatblygu ein hardal tu-allan.

## Theatr Clwyd

Yn wythnosol o fis Medi 2022, bu Theatr Clwyd yn cynnal Clwb Dawns yn yr ysgol.
Uchafbwynt y sesiynau yma oedd cael perfformio ym Mharc Gwepra.

## Gwibdeithiau

Yn ystod y tymor mae'r disgyblion wedi mwynhau gwibdeithiau amrywiol gyda'r Blynyddoedd Cynnar yn mynd i Fferm Park Hall, Bl 1 a 2 i'r Sw Fôr yn Rhyl a Bl 3 a 4 i Faesglas.

# YSGOL TŶ FFYNNON, SHOTTON

## Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd

Yn ystod yr hanner tymor, bu criw o'n plant ni'n perfformio yng nghystadleuaeth y "Dawns Hip-Hop Grŵp Bl.6 ac iau" yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri. Roedd hi'n gystadleuaeth o safon uchel iawn gyda deunaw o grwpiau'n cystadlu. Llwyddodd y grŵp i ennill yr ail wobr ac roedd y plant wir wedi mwynhau'r profiad o gystadlu ar lwyfan y genedlaethol am y tro cyntaf.

Diolch yn fawr i Miss Jones am eu hyfforddi ac am ei holl waith yn eu paratoi. Dyma nhw ar y llwyfan yn cystadlu!




## Ymweliad gan Ameer Davies-Rana – cyflwynydd Radio Cymru

Yn ddiweddar daeth Ameer i'r ysgol i drafod a chyflwyno swyddi yn y cyfryngau sydd ar gael os ydych yn ddwyieithog. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, creu podcast, recordio bod yn gyflwynydd ar y teledu a radio a llu o weithgareddau eraill.





**Ymweliad gan Griw Cymraeg Ysgol Glanrafon**
Fel rhan o'n brwdfrydedd i ddatblygu sgiliau iaith ein plant ac i anelu at dderbyn Gwobr Aur Cymraeg Campus, daeth Criw Cymraeg Ysgol Glanrafon i'n hysgol i sgwrsio gyda'n Criw Cymraeg ni, ac i dreulio amser chwarae ac amser yn y goedwig yng nghwmni ei gilydd. Mwynhaodd y plant y profiad yn fawr iawn.

Dyma luniau'r plant o'r ddwy ysgol yn mwynhau a sgwrsio gyda'i gilydd.





**"Paid cyffwrdd,dweud"**
Cafwyd ymweliad gan John Piper i addysgu'r plant ar sut i gadw'n ddiogel yn y gymuned a beth i wneud os byddant yn dod ar draws rhywbeth anghyfarwydd. Y neges oedd peidiwch â chyffwrdd – dywedwch wrth oedolyn!

**Jambori**
Aeth plant Blwyddyn 2 i'r Neuadd Ddinesig yng Nghei Connah yn ddiweddar i ganu caneuon cyfarwydd gyda'r diddanwr Martyn Geraint.

Cafwyd hwyl a sbri am fore cyfan!



**Neges Heddwch 2023 – Dosbarth Ceirw**
Dyma lun y plant o flaen yr ysgol gyda'r neges bwysig hon.




**Ras yr Iaith**
Aeth criw o'n plant i gymryd rhan yn y fenter hon.




**Pennaeth Newydd Ysgol Uwchradd Cei Connah**
Daeth Mr James Forber, Pennaeth newydd ysgol uwchradd Cei Connah i gynnal gwasanaeth i'r holl ysgol. Profiad hyfryd i'n plant ddod i'w adnabod.

Fe ddaeth cyn-ddisgyblion yn gwmni iddo hefyd.



**Hyfforddiant tenis**
Dyma griw o blant aeth i Benarlâg yn ddiweddar i ddatblygu sgiliau tenis. Roedd y plant wrth eu boddau ac wedi dysgu llawer.



**Pêl Droed 'Huddle' i ferched.**
Dyma ferched Blwyddyn 4 yn mwynhau eu hunain yn yr hyfforddiant a gafwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy i ddatblygu eu sgiliau pêl droed.




**Gwaith 'Pontio' Blwyddyn 5**
Yn ddiweddar, aeth Blwyddyn 5 i Ysgol Uwchradd Cei Connah i wneud gwaith Technoleg fel rhan o'r prosiect pontio. Roedd rhaid dylunio car rasio ac wedyn cystadlu i weld pa un oedd y cyflymaf yn erbyn ysgolion lleol eraill. Cafodd un o'n grwpiau 3ydd!

Da iawn chi blant!

Dyma lun y car buddugol, llun y plant a'n cyn ddisgyblion a'r 3ydd wobr.




**Ymweliad gan 'Foster Bear'**
Mae plant Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn cymryd tedi maethu adref i edrych ar ei ôl. Ymgyrch ydy hon i geisio ennyn diddordeb teuluoedd i faethu plant.

Fel diolch i'r plant, daeth yr arth 'go iawn' i'n gwasanaeth i ddweud diolch, i gyflwyno tystysgrif a chylch allweddi i'r plant.



**DUETS Ballet Cymru**
Mae cyfnod o ddwy flynedd arall wedi dod i ben i'r ail garfan. I ddathlu diwedd y ddwy flynedd roedd y dawnswyr wedi perfformio i'w rhieni yn neuadd yr ysgol ac wedi derbyn tystysgrifau.

Mi fydd Ballet Cymru ac Eleni yn dod mewn i'r ysgol yn fuan yn nhymor yr Hydref i ddewis y garfan nesaf. Rydym yn hynod ffodus fel ysgol ein bod wedi cael ein dewis i fod yn rhan o'r fenter yma.



**Ymweliad gan anifeiliaid egsotig**
Fel rhan o'n dathliadau diwedd tymor ac yng nghlwm â themâu'r adran iau ar goedwigoedd glaw, daeth nifer o anifeiliaid a fyddai'n byw yn y coedwigoedd yma i'r ysgol i'r plant eu gweld.



Ymhlith yr anifeiliaid oedd neidr, neidr gantroed, crwban, parot a draenog gwyn.

Roedd y plant yn llawer iawn mwy dewr na'r athrawon!.





**Hyfforddiant yn yr ŵyl criced**

Dyma'r criw aeth i dderbyn hyfforddiant yn ddiweddar gan Criced Cymru.




**Ar ôl blwyddyn hynod lwyddiannus, rydym i gyd yn edrych ymlaen at ein gwyliau haf a hoffem ddymuno i darllenwyr Papur Fama haf bendigedig.**

Trwy amryfusedd ni aeth newyddion ein hysgolion i mewn i'r copïau papur o Papur Fama am rifyn Awst a Medi. Ymddiheurwn am hyn.

Mi welwch o'r bwrlwm gweithgareddau sydd yma i'n hysgolion fod yn weithgar iawn yn nhymor yr haf.

Bu inni weld bod cyhoeddi'r atodiad arbennig hwn – ar-lein yn unig, am unwaith – yn ffordd o achub ein cam, ac o ddod â'r hanesion atoch.

*Y Golygyddion.*